

Tasglu Cymoedd y De

Nodyn Cyfarfod

Dyddiad: 22 a 23 Medi 2016

Lleoliad: Gwesty Parc Treftadaeth y Rhondda

Yn bresennol

Aelodau'r Tasglu
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Alun Davies AC (Cadeirydd)
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC
Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC
Ann Beynon, Cadeirydd Bwrdd Dinas-Ranbarth Caerdydd
Andrew Diplock, Cyfarwyddwr Strategaeth a Llywodraethu, Inprova Energy
Judith Evans, Pennaeth, Coleg y Cymoedd
Dr Chris Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
Y Cyngorydd Andrew Morgan, Arweinydd, Cyngor Rhondda Cynon Taf
Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd
Aelodau'r Bwrdd
Madeleine Brindley, Cyngorydd Arbennig, Llywodraeth Cymru
Tracey Burke, Cyfarwyddwr Strategaeth yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru
Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru
Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru
Owen Evans, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
Duncan Forbes, Prif Weithredwr Cymdeithas Tai Cymunedol Bron Afon
Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Ffyniant, Llywodraeth Cymru
John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adnewyddu, Llywodraeth Cymru
Marcella Maxwell, Dirprwy Cynllun y Sefydliad a Newid, Llywodraeth Cymru
Ruth Meadows, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfathrebu Digidol a Strategol, Llywodraeth Cymru
Huw Morris, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru
Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru
Hannah Woodhouse, Rheolwr Gyfarwyddwr, Consortiwm Addysg Canolbarth y De
Cyflwynwyr
Kirsty Davies-Warner, Pennaeth Oxfam Cymru
Chris McDonald, Dadansoddwr Polisi, Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
Gareth Morgan, Trafnidiaeth Cymru
Dr Mark Lang, Cydymaith Anrhydeddus Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd
Jonathan Price, Prif Economegydd a Phennaeth Gwasanaeth Economaidd y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru
Dawn Snape, What Works Centre for Wellbeing
Yr Athro David Snowden, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Bangor
Dr Victoria Winkler, Sefydliad Bevan
Ysgrifenyddiaeth y Tasglu
Nathan Cook, Llywodraeth Cymru

Laura Evans, Llywodraeth Cymru
Lucy Hoddinot, Llywodraeth Cymru
Beverley Morgan, Llywodraeth Cymru

1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes aelodau'r tasglu i'r cyfarfod cyntaf. Dywedodd y Gweinidog fod angen i'r gweithlu gael ei wreiddio yng nghymunedau'r cymoedd a chanolbwyntio ar beth ellir ei gyflawni.

Roedd yn teimlo y dylai'r tasglu geisio canolbwyntio ar dri maes: dileu tlodi, creu gwaith a gwella safon byw. Dylai edrych i'r dyfodol a chreu ymdeimlad o ddyhead, bywiogrwydd a hyder yn y dyfodol. Mae angen cymryd camau i wella twf economaidd a busnes. Roedd y Gweinidog am i'r tasglu fod yn arloesol a phwysleisiodd yr angen i herio unrhyw ragdybiaethau neu dybiaethau i greu syniadau newydd a bywiog i symud ymlaen.

2. Trosolwg economaidd o Gymoedd y De

Rhoddodd Jonathan Price, Prif Economegydd Llywodraeth Cymru drosolwg economaidd o Gymoedd y De. Roedd y pwyntiau trafod allweddol yn cynnwys:

- Amrywiaeth o fesurau pwysig i'w hystyried wrth asesu cynnydd ac nid Gwerth Ychwanegol Gros yn unig. Allweddol ein bod yn edrych ar gyflogaeth.
- Yr angen i edrych yn benodol ar pam nad yw'r cymoedd yn llwyddo cystal ag ardaloedd eraill sydd wedi eu dad-ddiwydiannu, sydd wedi adfer yn gynt.
- Ffactorau a oedd yn atal twf yr economi ranbarthol – swyddi cyflogau isel, swyddi lefel mynediad a chontractau dim oriau.
- Pwysigrwydd deall y gwahaniaethau mewn twf economaidd ledled y rhanbarth a rhwng y cymoedd a'r rhesymau dros eu canlyniadau salach.
- Pwysigrwydd bod yn agos at lefydd lle mae crynswth economaidd critigol – mae rhai cymoedd yn elwa ar fod yn agosach at Gaerdydd, ond nid yw cymoedd Gwent yn elwa ar berfformiad gwan yng Nghasnewydd.
- Manteision posibl trefi fel Merthyr Tudful yn gweithredu fel crynswth economaidd critigol i Flaenau'r Cymoedd.
- Soniwyd am effeithiau diwygio lles hefyd a sut mae hyn yn effeithio'n sylweddol ar deuluoedd a chymunedau ledled y cymoedd.

3. Beth sy'n gweithio o ran hyrwyddo adfywio a thwf economaidd

Cafwyd cyflwyniad ar hyrwyddo twf ym mhob rhanbarth gan Chris McDonald, dadansoddwr polisi y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Mae tystiolaeth yn awgrymu nad oes un llwybr penodol ar gyfer twf a bod datblygu economaidd y tu allan i'r prif ddinasoedd yr un mor bwysig.
- Ni ddylai twf ganolbwyntio ar un lle neu sector na bod yn ddibynnol ar gyllid cyhoeddus. Ond mae mäs critigol yn bwysig.
- Mae yna gyfres o ffactorau arwyddocaol ar gyfer twf, yn cynnwys sgiliau, arweinyddiaeth leol, arloesedd, ymgysylltu â busnesau, technoleg a strwythurau gwneud penderfyniadau clir.
- Nid yw twf ac adfywio'n ymwneud ag un mater yn unig, maent yn ymwneud â sut y gall polisïau weithio gyda'i gilydd gyda chynllunio gwell.
- Mae sgiliau'n allweddol, yn enwedig o ran gwella economïau sy'n tangyflawni.
- Mae canolbwyntio ar asedau a chryfderau lleol yn allweddol ynghyd ag adeiladu ar yr hyn sydd gan y cymoedd i'w gynnig, fel diwylliant, y dirwedd, tir cost isel a thwristiaeth.

- Mae arweinyddiaeth a llywodraethu da yn hanfodol. Mae'n bwysig pennu nodau, bod yn glir am ganlyniadau, cael cyfres briodol o ddangosyddion i fesur cynnydd ar lefel boblogaeth a dull cynaliadwy, hirdymor.
- A ddylid cael uwch swyddog yn gyfrifol am ddarpariaeth gyffredinol ac a ddylid ystyried rhannu dulliau arloesol a hyblyg ar sail cyllid?
- Mae newid diwylliant a'i bod hi'n bwysig i lywodraeth fod yn llai haearnidd a mentro o bryd i'w gilydd yn ffactor wrth ddatblygu amgylchedd arloesol.

4. Dull 'canolbwyntio ar leoliad'

Cafwyd cyflwyniad ar y dull manwl ar gyfer cymunedau cynaliadwy gan Dr Mark Lang, cydymaith anrhydeddus Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy, Prifysgol Caerdydd. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Nid yw ymdrechion adfywio yn seiliedig ar leoedd penodol wedi llwyddo bob tro yn y gorffennol, mae'n bwysig dysgu gwersi, yn cynnwys yr astudiaeth fanwl a oedd yn canolbwyntio ar leoliad yn Nhredeggar.
- Mae cyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol ar gyfer grymuso.
- Mae twf economaidd wedi arwain at fwy o anghydraddoldeb ac mae yna gost sylweddol i wasanaethau cyhoeddus.
- Gallai'r dinas-ranbarthau a Metro De Cymru weithredu fel cyfrannwr allweddol ond ni fydd y rhain yn sicrhau canlyniadau llwyddiannus ar eu pen eu hunain.
- Mae angen creu llawer o swyddi newydd yng Nghaerdydd i bobl yn y cymoedd fanteisio arnynt, ond nid yw hyn yn realistig; dylid canolbwyntio ar swyddi gwell agosach i gartref.
- Mae'r economi sylfaenol yn hanfodol ar gyfer mabwysiadu "dull cynllunio lleoliad cyfan".
- Soniwyd am bwysigrwydd cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â chynaliadwyedd a gwaith yn Nhorfaen a datblygu cynlluniau lles sy'n defnyddio'r dull sy'n canolbwyntio ar leoliad.
- Mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud sy'n canolbwyntio ar astudiaeth fanwl o Bont-y-pŵl a chanfyddiadau ehangach o bob cwr o'r awdurdod lleol.

5. Beth sy'n digwydd eisoes yn y cymoedd?

Cafwyd cyflwyniad ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan Ann Beynon, cadeirydd Bwrdd Dinas-Ranbarth Caerdydd a'r Cynghorydd Andrew Morgan, arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Cafwyd cyflwyniad ar Metro De Cymru gan Gareth Morgan, Trafnidiaeth Cymru.

Cafwyd sylwadau clo a oedd yn nodi'r angen i sicrhau bod pobl Cymoedd y De yn cael y manteision gorau posibl o'r cynlluniau sydd i ddod.

6. Beth sy'n gweithio o ran gwella gwasanaethau lleol

Cafwyd cyflwyniad ar addysg gan Hannah Woodhouse, rheolwr gyfarwyddwr Consortiwm Addysg Canolbarth y De; Andrew Llewelyn, pennaeth Ysgol Gynradd Glenboi, yng Nghwm Cynon a Heather Nicholas, pennaeth Ysgol Ferndale. Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd yn cynnwys:

- Mae model Tîm o Amgylch y Teulu yn bwysig i asesu anghenion, cryfderau ac asedau'r teulu cyfan.
- Ei bod hi'n allweddol cael yr athrawon gorau i weithio yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a chael amgylchedd lle mae athrawon yn teimlo eu bod yn gallu gweithio o'u gorau.

- Mae angen trefniadau arwain cryf i greu amgylchedd lle mae yna ddisgwyliadau a safonau uchel.
- Mae angen dull ysgol gyfan a strategaeth benodol i ganolbwyntio ar wella canlyniadau a chefnogi lles disgyblion.
- Mae gallu manteisio ar gyfleoedd addysg bellach ac uwch yn bwysig i ddatblygu dyheadau ac mae angen annog disgyblion i gyflawni a bod yn hyderus.
- Mynegwyd pryderon am y syniadau negyddol am brentisiaethau o gymharu â llwybrau academaidd.

Cafwyd cyflwyniad am dai gan Duncan Forbes, prif weithredwr Cymdeithas Tai Cymunedol Bron Afon. Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd yn cynnwys:

- Cydnabod y bydd cymdeithasau tai'n cyfrannu'n allweddol at helpu i liniaru effeithiau diwygio'r system les ac y bydd cefnogaeth i symud ymlaen yn hanfodol ar gyfer atal digartrefedd.
- Ni ddylid ystyried darparu tai fel rhoi to uwch ben rhywun yn unig – mae angen cymorth tenantiaeth barhaus a chysylltiadau ar draws asiantaethau.
- Dylid datblygu dull rhagweithiol i herio a newid agweddau drwy ddathlu'r gorffennol ac edrych tua'r dyfodol, gan adeiladu ar ymdeimlad o falchder mewn cymunedau lleol.

Cafwyd cyflwyniad ar iechyd gan Dr Gill Richardson, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Roedd y prif bwyntiau yn cynnwys:

- Mae problemau iechyd cyhoeddus yn hanfodol i herio ymddygiad ynghylch ffordd o fyw.
- Soniwyd am waith cadarnhaol o ran integreiddio gwasanaethau, er enghraifft y ganolfan gymunedol yn Llanhilledd, sy'n cael ei hystyried yn gaffaeliad i'r gymuned ac yn fodel a ddefnyddir yn gadarnhaol ar gyfer gwaith ar y cyd gan wasanaethau lleol.
- Teimlwyd bod cadw meddygon teulu a nyrsys yn y cymoedd yn fater allweddol.
- Teimlwyd bod defnyddio cyfleoedd yn y sector gofal a'r economi sylfaenol yn dda.

7. Lles

Cafwyd cyflwyniad ar les gan Dawn Snape o'r What Works Centre for Wellbeing. Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd yn cynnwys:

- Bod gan les bwysigrwydd arwyddocaol a bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynhyrchu mapiau lles personol.
- Gallai *Y Sgwrs Genedlaethol – Y Gymru a Garem* drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am les.
- Teimlwyd bod cysylltiadau â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn bwysig.
- Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i feddyliau ac emosiynau pobl a sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad a lles.
- Teimlwyd bod effeithiau a'r cynnydd mewn troseddau casineb yn erbyn cymunedau mudol wedi bod yn ddifrifol ar ôl Refferendwm yr UE. Teimlwyd bod mewnfydwyr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol hanfodol o ran cyflogaeth a bod angen naratifau cadarnhaol.

8. Y Dull Bywoliaethau Cynaliadwy

Cafwyd cyflwyniad ar y Dull Bywoliaethau Cynaliadwy gan Kirsty Davies-Warner, pennaeth Oxfam Cymru. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Mae yna hyblygrwydd o ran y cyllid sydd ar gael i nodi atebion, yn cynnwys anghenion hyfforddi i helpu pobl i allu cael swyddi.
- Pwysigrwydd canolbwyntio ar ddadansoddi rhywedd a chydraddoldeb i edrych ar wahanol anghenion.
- Mae pobl yn wynebu nifer o rwystrau wrth geisio cael swydd a'i chadw, nid oes modd rhagweld rhai o'r rhain; mae'n hawdd mynd i'r afael â rhai ohonynt, ond nid eraill.
- Dylai dulliau fod yn hyblyg er mwyn ymateb i'r anghenion amrywiol hyn a darparu ateb o'r gwaelod i fyny.
- Roedd mynediad i drafnidiaeth a gofal plant yn broblemau mawr.
- Gellir cynnwys egwyddorion y dull bywoliaethau cynaliadwy yn rhaglenni cyfredol Llywodraeth Cymru drwy fabwysiadu'r pecyn cymorth dull bywoliaethau cynaliadwy.
- Bydd hyfforddi staff rheng flaen Cymru yn annog cynaliadwyedd.

9. Defnyddio naratif fel dull ymchwil

Cafwyd cyflwyniad ar y defnydd o ethnograffeg wasgaredig a'r dull o ymgysylltu a arloeswyd gan Ganolfan Cynefin, Prifysgol Bangor gan David Snowden, o Ysgol Seicoleg, Prifysgol Bangor. Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd yn cynnwys:

- Yr angen i ystyried dulliau ymgysylltu sydd y tu hwnt i'r dulliau arferol o gynnal holiaduron a grwpiau ffocws.
- Yr angen i ystyried a defnyddio data amser real ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar gymunedau.
- Dylai dulliau geisio darpariaeth i weld beth sy'n gweithio a ble, ond dylent allu asesu sut i symud pobl at ganlyniad dymunol.
- Teimlwyd bod canolbwyntio ar ddealltwriaeth a gwybodaeth leol i ddylanwadu ar newid, drwy roi rheolaeth i bobl yn adnodd grymus.
- Gallai comisiynu ymchwil, sydd nawr yn gallu bod â ffiniau wedi'u diffinio'n barod, arwain at ogwydd, o ran pa dystiolaeth y gall ei defnyddio neu ei datblygu.

10. Syniadau sy'n newid Cymru

Cafwyd cyflwyniad ar syniadau sy'n newid Cymru a'r cyfleoedd posibl i'r tasglu gan Dr Victoria Winkler, Sefydliad Bevan. Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd yn cynnwys:

- Ystyriwyd bod cyngor gwell gyda chyfraniad gan arbenigwyr a chysylltiadau i gyflogwyr, gyda chyngor gyrfaoedd i oedolion, yn hanfodol.
- Mae angen mwy o gymorth mewn perthynas â chyflogadwyedd, yn arbennig ar gyfer pobl o oedran gweithio, a phobl hŷn a menywod yn arbennig.
- Dylai'r rhaglen Cyflogadwyedd Pob Oed geisio adeiladu ar beth sy'n gweithio a'r syniad o gymorth pwrpasol.
- Mae dysgu cymunedol yn hanfodol, ynghyd â hyfforddi a datblygu.
- Soniwyd am y farchnad lafur uniongyrchol, a oedd yn debygol o fod yn bwysig i bobl hŷn, llawer ohonynt â phroblemau iechyd o bosibl.
- Teimlwyd bod ymgysylltu â'r sector preifat yn hanfodol er mwyn annog y math priodol o fuddsoddiad, ond gan sicrhau bod busnesau'n aros yng Nghymru.

- Gellid defnyddio'r cyllid sy'n cael ei wario ar gyflogi staff dros dro yn y sector iechyd i uwchsgilio staff cyfredol sydd â sgiliau is a rhyddhau swyddi lefel mynediad. Gallai hyn gynnwys dull uwchsgilio i fuddsoddi yn y gweithlu a gwelliannau parhaus.
- Nid yw pob sector yn gweld datblygiad yn y gwaith.
- Gallai sefydlu mäs critigol ar sail pegynau twf a Metro De Cymru ddarparu ffordd gadarnhaol ymlaen.
- Gallai Metro De Cymru helpu symudedd, ond mae'n rhaid i drafnidiaeth fod yn rhad, hyblyg a dibynadwy.

11. Blaenoriaethau a'r camau nesaf

Yn ystod y trafodaethau nododd y tasglu nifer o heriau a chytunodd i flaenoriaethu rhai materion, ac mae angen bwrw ymlaen â phob un ohonynt er mwyn sicrhau newid hirdymor. Gellir grwpio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu cynnar hyn gyda'i gilydd mewn pedwar maes:

1. Integreiddio a chydgyssylltu gwell ar draws gwasanaethau cyhoeddus.
 - Datblygu model cyflawni lleol a fydd yn gweithredu dull cymuned gyfan o ymdrin ag addysg, lles a darparu gwasanaethau integredig. Cynigir treialu hyn mewn tair ardal yng Nghymoedd y De. Byddai'r treialon yn cefnogi mwy o hyblygrwydd o ran sut y defnyddir cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau lleol, gan alluogi ymarferwyr lleol i ddefnyddio eu profiad a'u crebwyll eu hunain i ddarparu newid a sicrhau dull integredig o ddarparu gwasanaethau a chymorth.
2. Mwy o gyfleoedd i gael swyddi o ansawdd da, gwella sgiliau cyflogadwyedd a darparu'r manteision gorau posibl i gymunedau'r cymoedd o fentrau fel Metro De Cymru, y dinas-ranbarthau a'r fargen ddinesig.
 - Sicrhau cymaint o fanteision â phosibl o'r strwythurau datblygu economaidd sy'n gweithio yn y Cymoedd a chyda'r Cymoedd.
 - Sicrhau bod Metro De Cymru, y dinas-ranbarthau a'r fargen ddinesig yn cyflawni'r manteision gorau posibl i gymunedau'r cymoedd. Symud tuag at sefydlu canolfannau buddsoddi strategol yn y cymoedd drwy ddarparu mynediad gwell a thrafnidiaeth fwy fforddiadwy, sy'n gysylltiedig â threfn gynllunio integredig flaengar.
 - Cynyddu mewnfuddsoddiad ac entrepreneuriaeth, gan sicrhau bod sgiliau'n cyfateb i ofynion cyflogwyr a datblygiadau'r sector yn y dyfodol.
 - Mwy o gyfleoedd gwaith i bobl leol yn y sectorau sydd eisoes yn darparu yn y cymoedd, er enghraifft, y sector gofal, cadwyni cyflenwi ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus.
 - Gellid defnyddio'r cymoedd fel man arbrofi ar gyfer sicrhau bod mwy o bobl leol yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus, a'r GIG yn arbennig.
 - Mynd i'r afael â rhwystrau, yn enwedig o ran anghydbwysedd cyfle sy'n gysylltiedig â rhywedd (er enghraifft, trwy ddarparu cyfleoedd addysg rhan-amser a gofal plant).
3. Cyfathrebu cadarnhaol ac ymgysylltu'n wirioneddol â'r gymuned.
 - Datblygu dull mwy arloesol o ymgysylltu â'r gymuned gan alluogi pobl i gael llais gwirioneddol yn y gwaith o ddatblygu blaenoriaethau a chanlyniadau ar gyfer y gweithlu, ynghyd ag ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i dargedu.
 - Cyflawni ymgyrch wedi'i thargedu i godi proffil y cymoedd i annog balchder yn eu bro.
4. Sicrhau'r manteision gorau posibl gan strwythurau a sefydliadau sy'n gweithio yn y cymoedd a chyda'r cymoedd.

Cytunodd y tasglu i ddatblygu canlyniadau clir ac atebol ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn.

